



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Y CYNNIG GWIRFODDOL – CYFARWYDDYD I SEFYDLIADAU SY’N LLETYA

Atodiad D

FFRAMWAITH YMGYSYLLTU A DATBLYGU IEUENCTID A RÔL Y SECTOR GWAITH IEUENCTID GWIRFODDOL YNG NGHYMRU

31 Mawrth 2015

Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Gwirfoddol Ieuencid, Tŷ Baltig, Sgwâr Mount
Stuart, Caerdydd, CF10 5FH. Ffôn 029 2047 3498

www.cwvys.org.uk

www.facebook.com/CWVYS

t: @CWVYS

Y Cynnig Gwirfoddol – Cyfarwyddyd i Sefydliadau sy'n Lletya

Cyflwyniad

Mae'r cyfarwyddyd hwn wedi cael ei baratoi er ystyriaeth Llywodraeth Cymru. Mae wedi'i ysgrifennu ar gyfer sefydliadau a chyrrff cyhoeddus sy'n darparu cyfleoedd i wirfoddoli fel rhan o gynnig gwirfoddoli y Warant leuenctid ar gyfer pobl ifanc yn pontio o addysg orfodol, i gefnogi'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu leuenctid. Mae'r cyfarwyddyd yn tynnu sylw at y ffactorau allweddol i'w hystyried wrth ddarparu llwybr o ddilyniant i wirfoddolwr ifanc.

Cefndir

Mae'r Warant leuenctid yn creu cyfle i'r sector gwirfoddol a chyhoeddus (h.y. cyrrff nid er elw) gynnig amrediad eang o brofiadau i bobl ifanc mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Dylid ystyried y cyfleoedd hyn i wirfoddoli fel un o blith nifer o lwybrau sydd ar gael i gynorthwyo pobl ifanc i ennill profiad gwerthfawr a symud ymlaen tuag at addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Mae nifer o wirfoddolwyr yn defnyddio sgiliau maen nhw eisoes wedi'u datblygu i gefnogi sefydliad neu achos. Mae'n bosib na fydd gan y bobl ifanc sy'n manteisio ar gyfle i wirfoddoli o dan y Warant leuenctid y sgiliau angenrheidiol i ymgymryd â'r rôl yn llawn o'r cychwyn. Felly, mae angen i'r sefydliad sy'n lletya, gyda chynghor a chyfarwyddyd gan y prif weithiwr ble fo angen, ddarparu ymagwedd fwy strwythuredig at y cyfle i wirfoddoli er mwyn gosod llwybr dilyniant clir i'r gwirfoddolwr. I wneud hyn, rhaid i gyfleoedd gwirfoddoli o dan y Warant leuenctid gyd-fynd â'r egwyddorion craidd canlynol:

- rhaid iddo fod mewn corff nid er elw (sector gwirfoddol neu gyhoeddus)
- cynnig amrediad eang o gyfleoedd sy'n rhoi cyfle i'r person ifanc gael profiad o wahanol rolau mewn gwahanol sefyllfaoedd
- cefnogaeth lawn tan fod y person ifanc yn gallu gweithio'n annibynnol ond gyda chefnogaeth, fel bo angen
- cal llwybr dilyniant – gan gynnwys, fel bo'n briodol: sgiliau sylfaenol; cefnogaeth bersonol, gymdeithasol ac emosïynol; deilliannau achrededig; cyfle i ddatblygu trwy addysg, hyfforddiant a chyflogaeth
- ystyried hyd y cyfle i wirfoddoli, er mwyn sicrhau digon o gyfle i'r person ifanc ddatblygu

Buddion Gwirfoddoli – pobl ifanc:

- profiadau newydd mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd
- strwythur a disgyblaeth yn y gweithle trwy bolisiau a dulliau gweithredu sefydliadol
- deall y cysyniad o gyfrifoldeb a sut i gymryd cyfrifoldeb
- dealltwriaeth well o faterion cymdeithasol, personol ac amgylcheddol
- datblygu dealltwriaeth o sut mae busnesau a sefydliadau yn gweithredu
- datblygu sgiliau personol, cymdeithasol a chyflogadwyedd
- datblygu syniadau am gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant posib a'r llwybrau i ddatblygu tuag atynt

Buddion Gwirfoddoli – y sefydliad sy'n lletya

- rhannu gwerthoedd a chredoau gyda phobl ifanc
- gweld person ifanc yn tyfu a datblygu
- cynorthwyo person ifanc i ddatblygu tuag at addysg, cyflogaeth a hyfforddiant
- posibilrwydd o gael aelod o staff newydd yn y dyfodol
- ymglymiad gyda'r gymuned ehangach

- potensial i ddysgu sgiliau a syniadau newydd o'r gwirfoddolwr

Sefydliadau sy'n Lletya

Mae'r diagram isod yn dangos bod hi'n debygol y bydd gofyn i'r sefydliad sy'n lletya buddsoddi amser ac adnoddau tan fod y person ifanc yn datblygu i bwynt o allu gweithio'n annibynnol (neu gyda braidd dim goruchwyliaeth) ac felly mae o fudd uniongyrchol i'r sefydliad hefyd. I gyrraedd y pwynt hwn mae'n bosib y bydd y person ifanc angen cefnogaeth amrediad ehangach o wasanaethau sy'n gallu cynnig ymyriadau arbenigol. Wrth ddatblygu cynllun datblygiad personol neu lwybr dilyniant ar gyfer y gwirfoddolwr, dylid cynnwys amser y tu allan i'r sefydliad fel bo angen neu wneud trefniadau i wasanaethau cefnogol gwrrdd â'r gwirfoddolwr "ar y safle" fel bo angen.



Cynllun Datblygiad Personol

Trwy baratoi Cynllun Datblygiad Personol (PDP) a monitro cyraeddiadau yn eu herbyn, mae'r cyfle i wirfoddoli yn dod yn 'strwythuredig' ac mae llwybr datblygiad clir wedi'i ymgorffori. Dylid bwydo gwybodaeth yn ôl i'r Cydlynnydd Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (YEPC) ynglŷn â chynnydd y gwirfoddolwr. Mae A PDP yn tracio taith y person ifanc, yn gosod amcanion ac yn monitro cynnydd yn eu herbyn.

Gallai gwybodaeth a gesglir ac a gofnodir trwy'r PDP hysbysu datblygiad y Fframwaith Deilliannau Genedlaethol ar gyfer gwaith ieuenctid, fel yr amlinellir yn y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru 2014-2018. Yn ei dro, gallai hynny gryfhau cyfleoedd i bobl ifanc, gyda'r bwriad o ostwng nifer y bobl ifanc sydd ddim yn ymgymryd ag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET).

Mae'r PDP yn gallu bod mor syml ag, mewn cyfarfod cychwynnol, edrych ar sefyllfa'r person ifanc, gosod rhai amcanion 'camau bach' a datblygu cynllun i gyflawni'r amcanion hynny. bydd y cyfarfod nesaf yn edrych ar ba amcanion sydd wedi'u cyflawni, rhesymau pam os oes rhai sydd heb eu cyflawni, gosod amcanion newydd ac adolygu'r cynllun fel bo angen tuag at gyflawni'r amcanion newydd. Mae hefyd nifer o ddulliau sydd wedi cael eu datblygu gan weithwyr proffesiynol i fonitro cynnydd pobl ifanc.

Darperir esiampl o dempled o PDP ar ddiwedd yr atodlen hon.

Isod ceir dolenni i rai o'r dulliau i fonitro cynnydd:

<http://www.cwvys.org.uk/cy/our-work/measuring-impact/>

<http://www.rickterscale.com/what-we-do/the-rickter-scale>

<http://inspiringimpact.org/wp-content/uploads/2013/03/Inspiring-Employability-final-for-web.pdf?Downloadchecked=true>

<http://www.outcomesstar.org.uk/star-versions/>

Y Person Ifanc yw'r Ffocws

Dylai'r ffocws ar bob adeg fod ar y person ifanc a sut gall y cynnig gefnogi dilyniant i mewn i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Bydd unrhyw wirfoddoli hir dymor gan y person ifanc yn y sefydliad sy'n lletya yn fudd ychwanegol. Efallai bydd y sefydliad sy'n lletya yn ystyried cynnig cyflogaeth wrth i'r gwirfoddolwr ddod yn fwy sefydledig o fewn y tîm.

Wrth ystyried cyfle addas i wirfoddoli, efallai hoffai'r Cydlynnydd Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid hefyd ystyried unrhyw wirfoddoli mae'r person ifanc wedi gwneud eisoes fel rhan o elfen Her Gymunedol cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn yr ysgol¹. Gallai hynny ddarparu llwybr naturiol i'r person ifanc a'r sefydliad ac adeiladu'n gydamserol ar y dysgu a phrofiadau cyfredol.

Mae nifer o sefydliadau gwaith ieuenctid yn cynnig cyfleoedd gwirfoddoli i bobl ifanc neu yn ymgorffori gwirfoddoli yn eu rhaglenni. Er enghraifft, mae cyfnod o wirfoddoli yn y gymuned yn rhan o raglenni Gwobr Dug Caeredin. Mae'r cyfnod o wirfoddoli yn cynyddu wrth i berson ifanc symud ymlaen o'r Wobr Efydd, i'r Gwobrau Arian ac Aur. Mae rhai sefydliadau lifrai yn cynnig achrediad trwy 'fathodyn gwirfoddoli'. O fewn sefyllfa gwaith ieuenctid, mae gan bobl ifanc rôl ddeuol fel aelodau yn cael mynediad at y gwasanaethau sydd ar gael a hefyd fel gwirfoddolwyr, ble maen nhw'n defnyddio eu sgiliau a'u rhinweddau eu hunain er budd y sefydliad a'i aelodau.

Dylid hefyd nodi bod pobl ifanc yn gallu gwirfoddoli gyda mwy nag un sefydliad ar unrhyw adeg.

Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion

Wrth weithio gyda phobl ifanc mewn unrhyw sefyllfa, mae '*Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion*'² yn amlinellu'r pum piler o arfer da wrth weithio gyda phobl ifanc fel a ganlyn:

- Addysgol
- Mynegiannol
- Cyfranogol
- Cynhwysol
- Grymusol

Er ei fod yn canolbwyntio ar ddarpariaeth gwasanaethau ieuenctid, mae '*Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion*' yn ddogfen allweddol ar gyfer unrhyw un sy'n gweithio

¹ Bagloriaeth Cymru Cyfnod Allweddol 4 Cenedlaethol / Sylfaenol (CBAC 2015)

² Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion 2014

gyda phobl ifanc mewn unrhyw sefyllfa. Dylai'r sefydliad sy'n lletya gwirfoddolwr ddarparu cyfleoedd i'r person ifanc sydd ar lefel briodol, sy'n annog dysgu a hunanfyneiant, sy'n cynnig cyfranogiad wrth gynllunio a chyflwyno tasgau neu rolau ac sy'n grymuso er mwyn cael twf mewn hunan-barch, cymhelliant a hyder. Dylai hefyd fod elfen o her i hyrwyddo gwydnwch.

Dylid darparu copi o 'Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion' i bob sefydliad sy'n darparu cyfleoedd i wirfoddoli ar gyfer pobl ifanc o dan YEPF, er mwyn cefnogi'r cyflwyniad o ddeilliannau gwell i bobl ifanc.

Gellir cael copi o 'Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion' yn:
<http://www.cwvys.org.uk/wp-content/uploads/2014/06/Youth-Work-in-Wales-Principles-and-Purposes-March-2014.pdf>

GwirVol, Cynghorwyd Gwirfoddoli Ieuenctid a Gwobrau Gwirfoddolwyr y Mileniwm
Partneriaeth yw GwirVol rhwng y trydydd sector a'r sectorau cyhoeddus a phreifat. Mae'n cael ei harwain gan farn pobl ifanc yng Nghymru. Mae'r Bartneriaeth yn bodoli i ddatblygu argymhellion Comisiwn Russell (<http://www.gwirvol.org/cy/mudiad/amdanom-ni-1/comisiwn-russell/>).

Bwriad yr argymhellion hyn yw darparu fframwaith i sbarduno cynnydd yn niferoedd ac amrywioldeb gwirfoddolwyr ifanc a rhoi mwy o gyfleoedd gwirfoddoli gwell iddynt.

Amcanion cyffredinol GwirVol yw: rhoi gwirfoddoli ifanc 'ar y map' a galluogi i wirfoddoli ddod yn weithgaredd buddiol, gwerth chweil a hygyrch i bobl ifanc, gan gyflawni'r nodau y'u hamlinellir ym Mholisiâu Llywodraeth Cymru i gynyddu gwirfoddoli yng Nghymru, trwy:

1. Gynyddu niferoedd am amrywioldeb y bobl ifanc sy'n gwirfoddoli yng Nghymru.
2. Cynyddu nifer a hygyrchedd y cyfleoedd gwirfoddoli i bobl ifanc yng Nghymru er mwyn sicrhau eu bod yn cael budd sylweddol o'u profiadau o wirfoddoli.

Fel menter, mae GwirVol yn darparu ffocws penodol ar ddatblygiad pellach gwirfoddoli yn y gymuned yn ehangach ac mewn addysg nad sy'n ffurfiol trwy weithio gyda phobl ifanc, sefydliadau a strwythurau gan:

- Ddarparu gwybodaeth a chynghor
- Darparu grantiau sy'n cynyddu cyfleoedd gwirfoddoli ieuenctid
- Creu profiadau gwirfoddoli ieuenctid o ansawdd uchel
- Hyrwyddo'r cyfleoedd hyn trwy ddefnyddio barn ac egni ei phrif bartner ieuenctid 'GwirForce'
- Dyfeisio dulliau o adnabod a gwobrwyo pethau sydd o werth i'r gwirfoddolwr ifanc.

Mae GwirVol yn gwneud hyn trwy:

- Ddosbarthu grantiau
- Cydlynu, cefnogi a monitro gwaith y rhwydwaith o Gynghorwyd Gwirfoddoli Ieuenctid ledled Cymru
- Dylunio a rheoli Porth GwirVol
- Cynnwys pobl ifanc, fel partneriaid, trwy sefydliad o'r enw GwirForce.

Mae rhaglen grantiau cystadleuol gwirfoddoli ieuenctid GwirVol yn cynnig cefnogaeth ariannol i sefydliadau, yn y sectorau gwirfoddol a statudol, sy'n cynnig cyfleoedd gwirfoddoli i bobl ifanc 14-25 oed. Trwy wneud grantiau ar gael ar draws sectorau, mae GwirVol yn cynorthwyo cyfleoedd am gydweithio rhwng cyrff awdurdodau lleol a sefydliadau'r sector gwirfoddol, a thrwy hynny mwy o gyfleoedd i bobl ifanc a mwy o ddarpariaeth gwaith ieuenctid.

Mae'r grantiau yn cwmpo i dri chategori:

- Creu Cyfleoedd – yn targedu'r datblygiad o gyfleoedd gwirfoddoli newydd i bobl ifanc
- Gwirfoddolwyr y Mileniwm – ar gyfer sefydliadau sy'n annog pobl ifanc i ddatblygu trwy raglen Gwirfoddolwyr y Mileniwm
- Rhyngwladol – ar gyfer prosiectau sy'n cyflwyno profiadau gwirfoddoli dramor.

Gellir dod o hyd i wybodaeth am y grantiau yma: <http://www.gwirvol.org/cy/mudiad/cyllid/>

Mae gan bob Cyngor Gwirfoddol Sirol (CVC) Cyngorydd Gwirfoddoli Ieuenctid GwirVol (YVA). Mae'r YVA yn cefnogi pobl ifanc i ddod o hyd i gyfleoedd gwirfoddoli yn eu hardal leol, ac mae sefydliadau sy'n edrych am wirfoddolwyr yn gallu hysbysebu cyfleoedd trwy'r YVA. Pan mae person ifanc yn gwirfoddoli maen nhw'n gallu cael cydnabyddiaeth ffurfiol ar gyfer y gwaith trwy gynllun Gwirfoddolwyr y Mileniwm (MV), ble maen nhw'n gallu derbyn gwobr am wneud 50, 100 a 200 awr o wirfoddoli. Mae'r YVA yn gallu cynnig cefnogaeth gyda chofrestru ar y cynllun ac yn gallu tywys person ifanc trwy'r broses, yn ogystal â dathlu eu cyrhaeddiad.

Gellir dod o hyd i fanylion cyswllt ar gyfer pob YVA yma:

<http://www.gwirfoddolicymru.net/young-volunteerscy/>

Cyfarwyddyd i Sefydliadau sy'n Lletya

Mae'r Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) wedi datblygu llyfrgell gynhwysfawr o gyfarwyddyd ar gyfer sefydliadau sy'n cynnig cyfleoedd gwirfoddoli.

Ar yr adeg o ysgrifennu, rydym yn disgwyl am y cyfarwyddyd diweddaraf o'r Adran Gwaith a Phensiynau ar '*Gwirfoddolwyr a Budd-daliadau Lles*', yn esbonio oriau gweithio a ganiateir, ac unrhyw effaith mae gwirfoddoli yn ei gael ar y sawl sy'n hawlio budd-daliadau. Bydd y WCVA yn rhoi gwybod am ganllawiau newydd pan maen nhw ar gael.

Mae'r taflenni ffeithiau yn sôn am y pynciau canlynol:

- Meddwl am wirfoddoli
- Datblygu strategaeth gwirfoddolwyr
- Creu polisi gwirfoddoli
- Recriwtio, dethol a sefydlu gwirfoddolwyr
- Denu gwirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth mewn gwirfoddoli
- Sut i sicrhau bodlonrwydd gwirfoddolwyr
- Cadw gwirfoddolwyr yn ddiogel
- Asesiadau risg – gwirfoddolwyr sy'n gweithio o'u cartrefi
- Arferion diogelu a rheoli da
- Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- Gwirfoddolwyr a'r gyfraith
- Gwirfoddolwyr a budd-daliadau lles
- Treuliau gwirfoddolwyr
- Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr

- Cefnogi gwirfoddolwr anodd eu lleoli
- Cynnwys pobl ifanc fel gwirfoddolwyr
- Deall iechyd meddwl a gwirfoddoli
- Gyrwyr Gwirfoddol
- Gwerth economaidd cyfraniad gwirfoddolwyr
- Gwirfoddoli a chymorth cyflogwr
- Beth mae Canolfannau Gwirfoddoli yn eu gwneud yng Nghymru?
- Rheoli ymadawiad gwirfoddolwyr
- Gwirfoddolwyr ac yswiriant
- Cynnwys gwirfoddolwyr o dramor

Gellir dod o hyd i'r llyfrgell o daflenni ffeithiau yma: <http://www.wcva.org.uk/advice-guidance/volunteers?seq.lang=cy-GB>

Mae'r ardaloedd allweddol y dylai sefydliadau sy'n lletya eu hystyried fel a ganlyn:

Polisi Gwirfoddoli: yn amlinellu pam mae'r sefydliad eisiau gweithio gyda gwirfoddolwyr, y rolau gwirfoddol sydd ar gael, cyfrifoldebau'r sefydliad tuag at ei wirfoddolwyr, a'r hyn mae'r sefydliad yn eu disgwyl gan wirfoddolwyr.

Cefnogi'r bobl ifanc i ddatblygu: i mewn i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, a lleihau'r rhwystrau iddynt wneud hynny.

Sefydlu: cyflwyno'r gwirfoddolwr i'r sefydliad, aelodau eraill o'r tîm, polisïau a dulliau gweithredu, ac unrhyw arferion gweithio, er mwyn croesawu'r gwirfoddolwr.

Cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn gwirfoddoli: sicrhau triniaeth deg i wirfoddolwyr, gan gynnwys mynediad at gyfleoedd ac adnoddau.

Cynnwys pobl ifanc fel gwirfoddolwyr: ystyried pa sgiliau neu wybodaeth gallai'r gwirfoddolwr feddu ar yn rhinwedd ei oedran, a sut i'w helpu i gael y mwyaf allan o wirfoddoli.

Cefnogi gwirfoddolwyr anodd eu lleoli: ystyried gwneud hyfforddiant i ddod i ddeall yn well y materion y'u hwynebir er mwyn gallu darparu'r gefnogaeth a phrofiad gorau.

Arferion diogelu a rheoli da, a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd: sicrhau diogelwch y person ifanc ac aelodau eraill o'r tîm.

Gwirfoddoli, y gyfraith ac yswiriant: sicrhau diogelwch i'r sefydliad a'r gwirfoddolwr ar bob adeg.

Deilliannau

Gyda'r gefnogaeth gywir, anogaeth a chydabyddiaeth o gyrhaeddiad, gall wirfoddolwr ifanc ddod yn aelod gwerthfawr o'r tîm a dod ag ystod o fuddion i'r sefydliadau sy'n eu lletya: syniadau newydd, safbwyntiau ffres ac egni newydd; agwedd ifanc; gwell effaith cymdeithasol ac economaidd; cyfleoedd i dyfu a chysylltu â'r byd ehangach.

Fodd bynnag, rhaid mai ffocws y cyfle i wirfoddoli yng nghyd-destun y YEPF a'r Warant leuencid yw cefnogi'r person ifanc tuag at ddeilliannau positif, sy'n gallu cynnwys symud ymlaen at addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Y Cynnig Gwirfoddol – Cynllun Datblygu Personol

Enw:

Dyddiad Cychwyn:

Enw'r Sefydliad:

Dyddiad Adolygu:

Cyswllt yn y sefydliad:

Ebost y person cyswllt:

Beth?	Sut?	Pwy?	Erbyn pryd?	Tystiolaeth o Gyflawni	Adolygu
Amcanion cyffredinol y cyfle i wirfoddoli:	Dulliau a ddefnyddiwyd i gyflawni'r amcanion:	Camau gweithredu'r gwirfoddolwr / sefydliad:	Dyddiad gorffen disgwyliedig:	Y gallu i weithio'n annibynnol, achrediad, ardystiad ac ati:	Sut mae'r person ifanc wedi datblygu, a'r camau nesaf:

Beth?	Sut?	Pwy?	Pryd?	Tystiolaeth o Gyflawni	Adolygu
Camau bychain i gyflawni'r amcan cyffredinol:	Dulliau a ddefnyddiwyd i gyflawni'r amcanion:	Camau gweithredu'r gwirfoddolwr / sefydliad:	Dyddiad targed ar gyfer cyflawni'r cam:	Y gallu i weithio'n annibynnol, achrediad, ardystiad ac ati.	Cyrhaeddiad hyd yn hyn ac unrhyw gamau gweithredu pellach sydd eu hangen:

Llofnod (Y gwirfoddolwr)

Dyddiad:

Llofnod (Sefydliad):

Dyddiad: